


# Kids in Museums MANIFESTO

## *20 ways to make a visit family friendly*

1 **Say 'Hello!'** and welcome every visitor. Curators, volunteers, front of house and those who work in the café should all be part of the family friendly experience.

2 **Be positive** and do away with the word 'No'. Tell visitors what they can do at the door, don't pin up a list of things they can't.

3 **Share stories** with each other. Listen. Families can be experts too.

4 **Begin at birth**. It's never too early to visit a museum. They're social, sensory, stimulating places – perfect for babies.
*'The colours and images brought art to life and my six month old son gave his first review – waving his arms, smiling and making loud noises.'*

5 **Play the generation game**. Grandparents are increasingly important. Conversation between generations should be at the heart of what you do.
*'Oooh, we had one of those... That's how Granny got the scar on her head from swinging on the mangle handle.'*

6 **Invite teenagers** in and let them hang out. Ask them if they want to get involved and value their opinions. Museums can lead the way in letting people know the contributions teenagers make.

7 **Be consistent** about what age you consider adult. If you charge an adult price, do you let the young visitor in on their own?

8 **Reach beyond** your four walls to new visitors. Ask how you can help make a visit possible. Take responsibility for the hurdles outside, even if they're not put up by you.

9 **Be flexible** in your activities, events and family tickets. Families come in all shapes and sizes. Design pricing and programmes with all sorts of families in mind.

10 **Chat online**. Your social media and website need to be family friendly and up to date, so visitors can easily find what's available and prepare for their visit.

11 **Create a comfy, safe place** for children and families. Museums can be havens and make visitors feel better.

12 **Be the core of your community**, with spaces where families can get together and talk.
*'I've always loved this museum. The idea of just going, here's a space, do some stuff. That's really cool.'*

13 **Don't say ssshhhush!** If kids are being noisy, ask yourself 'Why?' Is it because they're excited? Great! Then capture that excitement. Is it because they're bored? Then give them something meaningful to do.

14 **Say 'Please touch!'** as often as you can. Everyone finds real objects awesome. Direct kids to things that can be handled, teach respect and explain why others can't.

15 **Give a hand to grown-ups** as well as children. Sometimes it isn't the kids who are shy – parents need your support too. Produce guides, trails and activities so everyone can join in.
*'The staff help me to talk to my children about the art, so I don't feel embarrassed if I don't know the answer.'*

16 **Be aware of different families' needs**. Use your imagination with signs, symbols and words understood by all. Design everything you offer to be equally accessible to disabled and non-disabled visitors alike.

17 **Make the most of your different spaces**, outside as well as inside. Cafés, gardens, stairways and reception areas are valuable parts of the museum too.
*'Even the lift is fun, as it has a Vermicious Knid in it, which always makes us laugh!'*

18 **Keep an eye on visitors' comfort**. Make sure the toilets are always pleasant, with room for pushchairs and baby changing facilities. It's the only place every family will visit. Provide somewhere to leave coats, bags and pushchairs, scooters and skateboards.

19 **Provide healthy, good-value food**, with high chairs and unlimited tap water. Your café should reflect the same family friendly values as the rest of the museum.

20 **Make the visit live on**. Build relationships with your family visitors and let them know you want to keep in touch. Involve them in long-term decision making at the museum. Give them a reason to come back. Families can be your best advocates.
*'So if asked your marks out of 5 for the museum, what would you say?' '10.'*

TEL 020 3096 7707 | EMAIL getintouch@kidsinmuseums.org.uk | REGISTERED CHARITY NUMBER 1123658



© Kids in Museums 2015




# MANIFFESTO
# Kids in Museums

## *20 ffordd i wneud amgueddfeydd yn llefydd mwy cyfeillgar i deuluoedd*

1 **Dywedwch 'Helo!'** a chroesawu pob ymwelydd. Dylai curaduron, gwirfoddolwyr, staff blaen ŷ ty a'r rhai sy'n gweithio yn y caffi i gyd fod yn rhan o'r croeso cyfeillgar i deuluoedd.

2 **Byddwch yn bositif** a chael gwared â'r gair 'Na'. Dywedwch wrth ymwelwyr beth y gallant ei wneud wrth iddynt gyrraedd, peidiwch â rhoi rhestr o bethau na allant ei wneud.

3 **Rhannwch straeon.** Gwrandewch. Gall teuluoedd fod yn arbenigwyr hefyd.

4 **Dechreuwch o'r crud**. Nid yw byth yn rhy gynnar i ymweld ag amgueddfa. Maent yn llefydd cymdeithasol, synhwyraidd a chyffrous – ac yn berffaith ar gyfer babanod.
*'Daeth y lliwiau a'r delweddau â'r gwaith celf yn fyw a rhoddodd fy mhlentyn chwe mis oed ei adolygiad cyntaf wrth wenu, chwifio ei freichiau, a gwneud synau uchel.'*

5 **Pontio'r cenedlaethau**. Mae neiniau a theidiau yn dod yn fwyfwy pwysig. Dylai sgyrsiau rhwng cenedlaethau fod wrth wraidd yr hyn rydych yn ei wneud.
*'Wel, roedd gennym ni un o'r rheina. Cafodd Nain y graith 'na ar ei phen wrth siglo ar y mangl.'*

6 **Gwahoddwch bobl ifanc** i'ch amgueddfa a gadewch iddynt ymlacio yno. Gofynnwch a ydynt am gymryd rhan a gwerthfawrogwch eu barn. Gall amgueddfeydd arwain y ffordd o ran rhoi sylw i gyfraniadau pobl ifanc.

7 **Byddwch yn gyson** am ba oedran rydych chi'n ei ystyried yn oedran oedolyn. Os ydych yn codi pris oedolyn, ydych chi'n gadael yr ymwelydd ifanc i mewn ar ei ben ei hun?

8 **Estynnwch y tu hwnt** i'ch pedair wal i ddenu ymwelwyr newydd. Gofynnwch sut y gallwch chi helpu i wneud eu hymweliad yn bosibl. Ceisiwch gael gwared ar unrhyw rwystr i'r ymweliad, hyd yn oed os nad ydych yn gyfrifol amdano.

9 **Byddwch yn hyblyg** yn eich gweithgareddau, eich digwyddiadau a'ch tocynnau teulu. Mae pob teulu yn wahanol. Wrth ddylunio rhaglenni a phrisiau, ystyriwch bob math o deulu.

10 **Sgwrsiwch ar-lein**. Mae angen i'ch cyfryngau cymdeithasol a'ch gwefan fod yn hwylus i deuluoedd ac yn gyfredol, fel y gall ymwelwyr ddod o hyd i wybodaeth yn hawdd a pharatoi ar gyfer eu hymweliad.

11 **Crëwch le cyfforddus a diogel** i blant a theuluoedd. Gall amgueddfa fod yn hafan ac fe all wneud i ymwelwyr deimlo'n well.

12 **Byddwch yn ganolog i'ch cymuned**. Crëwch fannau lle gall teuluoedd gwrdd a chymdeithasu.
*'Dwi wastad wedi mwynhau'r amgueddfa hon. Y syniad o ymweld a gwneud rhywbeth. Mae'n grêt.'*

13 **Peidiwch â dweud ssshhh!** Os yw'r plant yn swnllyd, gofynnwch 'Pam?' Ai am eu bod yn mwynhau? Gwych! Anogwch y cyffro. Ai am eu bod wedi diflasu? Yna rhowch rywbeth ystyrlon iddyn nhw i'w wneud.

14 **Dywedwch 'Cyffyrddwch ag ef!'** mor aml ag y gallwch. Mae pawb yn meddwl bod gwrthrychau go iawn yn wych. Anfonwch blant at bethau y gellir eu cyffwrdd, dysgwch iddynt barchu'r gwrthrychau, ac esboniwch pam nad oes modd cyffwrdd gwrthrychau eraill.

15 **Rhowch gymorth i oedolion** yn ogystal â phlant. Weithiau, nid y plant sy'n swil – mae angen eich cefnogaeth ar y rhieni hefyd. Cynhyrchwch ganllawiau, llwybrau a gweithgareddau fel y gall pawb gymryd rhan.
*'Mae'r staff yn fy helpu i siarad â fy mhlant am y gwaith celf, felly dwi ddim yn teimlo embaras os nad ydw i'n gwybod yr ateb.'*

16 **Byddwch yn ymwybodol o anghenion gwahanol deuluoedd**. Defnyddiwch eich dychymyg gydag arwyddion, symbolau a geiriau sy'n ddealladwy i bawb. Dyluniwch bopeth i fod yr un mor hwylus i ymwelwyr anabl a rhai nad ydynt yn anabl.

17 **Gwnewch y gorau o fannau gwahanol yr amgueddfa**, y tu allan yn ogystal ag y tu mewn. Mae caffis, gerddi, grisiau ac ardaloedd derbyn yn rhannau gwerthfawr o'ch amgueddfa hefyd.
*'Mae'r lifft hyd yn oed yn hwyl, am fod ganddo Vermicious Knid ynddo, sydd bob amser yn gwneud i ni chwerthin!'*

18 **Cadwch lygad ar gyfleusterau ymwelwyr**. Gwnewch yn siŵr bod y toiledau bob amser yn lân, gyda lle ar gyfer pramiau a chyfleusterau newid babanod. Dyma'r unig le y bydd pob teulu yn ymweld ag ef. Darparwch rywle i adael cotiau, bagiau a phramiau, sgwteri a sglefrfyrddau.

19 **Darparwch fwyd iach, sydd werth yr arian**, gyda chadeiriau uchel a dŵr tap heb gyfyngiad. Dylai eich caffi adlewyrchu'r un gwerthoedd teulu â gweddill yr amgueddfa.

20 **Cadwch mewn cysylltiad**. Adeiladwch berthynas gyda'ch ymwelwyr a rhoi gwybod iddynt eich bod am gadw mewn cysylltiad. Sicrhewch eu bod yn rhan o benderfyniadau tymor hir yn yr amgueddfa. Rhowch reswm iddynt ddychwelyd. Gall teuluoedd fod yn genhadon da ichi.
*'Beth yw eich marciau allan o 5 ar gyfer yr amgueddfa? '10'*

TEL 020 3096 7707 | EMAIL getintouch@kidsinmuseums.org.uk | REGISTERED CHARITY NUMBER 1123658

© Kids in Museums 2015